**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 35

# Gorchymyn Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 2) 2018

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 25 Ionawr 2018**

**2.** Y dyddiad penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 25 Ionawr 2018—

(a) adran 8(4) (diffiniadau mewn perthynas â gweithgarwch safle tirlenwi);

(b) adran 20(3) i (6) (cais am gymeradwyaeth i ddefnyddio dull arall i bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy);

(c) adran 21(1) i (5) a (7) (cais am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt dŵr);

(d) adrannau 24 i 26 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â'r dull o bennu pwysau deunydd, pŵer i addasu darpariaeth sy'n ymwneud â phwysau trethadwy deunydd a rhyddhadau: cyffredinol);

(e) adran 29(2) a (3) (cymeradwyo adfer safle);

(f) adran 30 (adfer safle: y weithdrefn ar gyfer cymeradwyaeth);

(g) adran 31 (adfer safle: amrywio cymeradwyaeth);

(h) adran 34 (cofrestr o bersonau sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy);

(i) adran 35(2) i (5) (cais i fod yn gofrestredig);

(j) adran 36 (newidiadau a chywiro gwybodaeth);

(k) adran 37(5) a (6) (canslo cofrestriad);

(l) adran 38 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â chofrestru);

(m) adran 39(5) i (8) (cyfnodau cyfrifyddu);

(n) adran 40 (pŵer i amrywio cyfnod cyfrifyddu neu ddyddiad ffeilio);

(o) adran 43(2) (crynodeb treth gwarediadau tirlenwi);

(p) adran 55 (dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu);

(q) adran 57(3) (cofnodion man nad yw at ddibenion gwaredu);

(r) adran 58 (adolygiadau ac apelau sy'n ymwneud â dynodi mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu);

(s) adran 59 (pwerau archwilio);

(t) adran 66 (cosb am fethu â chydymffurfio â gofynion eraill sy'n ymwneud â chofrestru);

(u) adran 67 (asesu cosb o dan adran 66);

(v) adrannau 70 i 72 (talu cosbau, gwahardd cosbi ddwywaith ac atebolrwydd cynrychiolwyr personol);

(w) Pennod 6 (achosion arbennig) o Ran 5 (darpariaeth atodol), ac eithrio adrannau 85 i 87;

(x) adran 90 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**)) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 4 y cyfeirir atynt ym mharagraff (z);

(y) Atodlen 2 (yr hyn sydd i'w gynnwys yn y gofrestr); a

(z) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016)—

(i) paragraffau 4 i 8;

(ii) paragraff 16; a

(iii) paragraffau 18 i 20.

(**1**) 2016 dccc 6.